YMDDYDDANION.

BUDDIOLDEB BEIBLAU I'R PAGANIAID.

WILLIAM—Boreu da i chwi, Thomas. Buasai yn dda genyf pe buasech yn ein capel ni neithiwr, pan oedd ein gweinidog yn son am ddanfon Beiblau i'r Paganiaid. O, fel y teimlem wrth ei wrando. 'Rwyf yn siwr, pe buasech chwi yno, nad arosech ragor gyda'r Seintiau.

Thomas—Wel, rhowch glywed pa beth a ddywedodd; hwyrach fod ganddo rywbeth werth ei wrando. Buais fy hunan yn arfer gwrando llawer ar yr Independiaid yn son am y paganiaid.

William—Dywedodd fod rhwymau mawr ar Gristionogion y wlad hon i anfon y Beibl i blith y paganiaid, yn eu hiaith eu hunain, fel y gallont wybod, fel ninnau, am ffordd y bywyd. Mynegodd am y miloedd a ysgubir bob blwyddyn i'r byd arall, yn amddifad o'r gyfrol santaidd; a dywedodd y dylem ni werthfawrogi ein breintiau, o herwydd fod genym gymmaint o Feiblau, a theimlo hefyd dros y paganiaid.

Thomas—Ai dyna fel y dywedai ef, ynte? Mae y Beibl yn dda ac yn ddefnyddiol i bawb, mae yn wir, ond pa le y cawsoch chwi gommisiwn i gyfieithu, cyhoeddi, a dosparthu y Beibl i'r paganiaid, na neb arall? Fe roddwyd commisiwn i bregethu yr efengyl i'r holl genedloedd, ond nid i chwi y rhoddwyd ef, eithr i'r deuddeg apostol; ond ni roddwyd commissiwn i neb gyfieithu a dosparthu beiblau! Os ydych am ddilyn yr apostolion, gadewch y cyfan yn llonydd, a phregethwch yr efengyl yn unig. Nid yr efengyl yw y Beibl, canys yn mhell wedi dechreu pregethu yr efengyl, yr ysgrifenwyd llawer o'i gynnwysiad. Ni all y Beibl achub neb; yr efengyl, yr hon yw y "trysor" sydd mewn "llestri pridd," yn unig sydd yn achub. Mae y Beibl yn sicr o fod yn rhwystr mawr i'ch cenadon chwi ac ereill yn mhlith y paganiaid.

William—Pa fodd yn y byd y gall y Beibl fod yn rhwystr?

Thomas—O herwydd ei fod yn dweyd ynghylch pob peth braidd yn hollol groes i'ch cenadon chwi. Tra y dyweda y cenadon mai taenellu o lestr a wneir yn y bedydd, a hyny ar fabanod a phawb; ac nad ydyw er maddeuant pechodau, nac ychwaith o bwys mawr, y Beibl a dystia, "A hwy a fedyddiwyd ganddo ef *yn* yr Iorddonen

gan gyffesu eu pechodau," yr hyn ni allai plant; ac " oddieithr geni dyn o ddwfr, ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. Tra dywed y cenadon mai ffolineb yw gosod dwylaw ar ol bedyddio, tystia y Beibl i ddau o'r apostolion orfod myned i waered at y Samariaid er gosod dwylaw, cyn y gallent dderbyn yr Ysbryd Glan. Tra dywed y cenadon nad oes arwyddion i ganlyn neb ond yr apostolion, tystia y Beibl, " A'r arwyddion hyn a ganlynant y rhai a *gredant*." Tra dywed y cenadon am beidio dysgwyl y doniau ysbrydol, tystia y Beibl y dylid eu " deisyf." Tra dywed y cenadon nad yw yr Ysbryd yn cael ei roddi yn awr yn ei ddoniau eglurhaol megys cynt, tystia y Beibl fod yr addewid o hyny " i bawb yn mhell," a dywed, " Eithr eglurhad yr Ysbryd a roddir i bob un." Tra dywed y cenadon nad oes dim eisieu apostolion a phrophwydi, &c., tystia y Beibl i'r rhai hyny gael eu gosod yn yr eglwys " i berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corff Crist, hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd." Tra dywed y cenadon am yru am ddoctoriaid at y claf, tystia y Beibl dros alw ato henuriaid yr eglwys. Mewn gwirionedd, beth bynag a ddywed y cenadon, mae y Beibl yn siwr o'u croesi; ac y mae'r paganiaid, os ydynt yn gallu darllen, yn ffolach nag anifeiliaid, os credant y Beibl a'r cenadon. Buasai yn well i'r cenadon argraffu eu cyffes ffydd, a gadael y Beibl i'r Saint, y rhai yn unig sydd yn unol ag ef yn mhob peth.

William—Wel, yn wir, Thomas, eich cwrdd chwi oedd y lwc oreu i mi erioed. Ffarwel yn awr; byddwn yn frodyr cyn hir.

Y PARCHEDIG A'R PAGAN.

Parchedig—Wel, gyfaill, pa beth a feddyliwch am ein crefydd ni yn awr, canys mi welaf eich bod wedi darllen llawer ar y Beibl?

Pagan—Wel, yn wir, syr, mae yn rhaid cyfaddef, yn ol yr hyn a ddarllenais yn y Testament Newydd, yr hwn a ddywedasoch fod pob gair o hono yn wir, fod eglwys Dduw yn rhagori llawer ar ddim a glywais son am dano o'r blaen. Mae llawer o honom ni, greaduriaid duon, yn diolch am gael gafael ar y fath oleuni, ac yn penderfynu gadael y duwiau pren a maen, ac arddel eich Duw chwi.

Parch.—Pa ranau a fuoch chwi yn ddarllen?

Pagan—Y ddeuddegfed bennod o 1 Corinthiaid; mae y 28 adn. yn dweyd i Dduw osod yn yr eglwys, "yn gyntaf apostolion. yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon; yna gwyrthiau, wedi hyny doniau i iachâu, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau." Mae pethau felly yn ardderchog.

Parch.—Ond cofiwch, gyfaill bach, nid yw y pethau yna yn yr eglwys yn awr.

Pagan—A oes dim apostolion ynddi?

Parch.—Nac oes, canys nid oes eu heisieu yn yr oes hon.

Pagan—Mae ynddi brophwydi, feallai?

Parch.—Nac oes; mae y rhai hyny hefyd wedi eu tynu o'r eglwys.

Pagan—Mae llawer o wyrthiau ynddi, ond odid; canys y mae eich Duw chwi yn alluog iawn, ac yn gwneuthur pethau mawrion.

Parch.—Gwyrthiau, yn wir! nac oes un. Gwell i chwi fyned i Brydain at y Mormoniaid, os ydych am ddwlni felly.

Pagan—Wel, fe allai fod doniau iachâu ynddi, ynte. Mae y rhai hyny yn sicr o fod yn ddefnyddiol iawn.

Parch.—Na, nid yw y rhai hyny ynddi ychwaith yn awr, ac nid oes eu heisieu mwyach.

Pagan—Wel, beth am y rhywiogaethau tafodau, &c.: mae yn rhaid fod rhai o honynt hwy genych.

Parch.—Gyfaill bach, y maent oll wedi darfod yn wir.

Pagan—Wel, syr, chwi sydd yn gwybod oreu am hyny: ond fe wn i hyn, os yw yr holl bethau a osododd eich Duw chwi yn ei eglwys wedi eu tynu allan o honi, neu wedi darfod, mae yn eglur ddigon fod yr *eglwys* wedi darfod hefyd. Hwriwch, dyma eich Beibl yn ol i chwi; mae ef neu chwi yn gelwyddog iawn, Meddyliais losgi fy eilun-dduw neithiwr, ond y mae yn dda genyf yn awr na wneuthum felly, onide buaswn heb dduw na chrefydd yn y byd.

CREDO SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF.

Credwn yn Nuw y Tad tragywyddol, a'i Fab Iesu Grist, ac yn yr Ysbryd Glân.

Credwn y caiff dynion eu cospi am eu pechodau eu hunain, ac nid am droseddiadau Adda.

Credwn mai trwy iawn Crist y gall holl ddynolryw gael eu hachub, trwy ufyddhau i gyfreithiau ac ordinhadau yr efengyl.

Credwn mai yr ordinhadau hyn yw—Yn 1af,—Ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Yn 2il,—Edifeirwch. Yn 3ydd,—Bedydd trwy drochiad er maddeuant pechodau. Yn 4ydd,—Gosodiad dwylaw er derbyn dawn yr Ysbryd Glân. Yn 5med,—Swper yr Arglwydd.

Credwn fod yn rhaid i ddynion gael eu galw gan Dduw trwy ysbrydoliaeth, a thrwy osodiad dwylaw y rhai hyny a awdurdodwyd yn gyfreithlawn i bregethu yr efengyl a gweinyddu ei hordinhadau.

Credwn yn yr un rheoleiddiad a fodolai yn yr eglwys gyntefig, sef apostolion, prophwydi, efengylwyr, bugeiliad, athrawon, &c.

Credwn yn ngalluoedd a doniau yr efengyl dragywyddol, sef y ddawn o ffydd, gwahaniaeth ysbrydoedd, prophwydoliaeth, dadguddiad, gweledigaethau, iachâu, tafodau, a chyfieithad tafodau, doethineb, cariad, brawdgarwch, &c.

Credwn air Duw sydd yn ysgrifenedig yn y Beibl, credwn hefyd air Duw sydd yn ysgrifenedig yn Llyfr Mormon, ac yn mhob llyfr da arall.

Credwn yr oll y mae Duw wedi ddadguddio, yr oll y mae yn ddadguddio yn awr, a chredwn y dadguddia efe etto lawer ychwaneg o bethau mawr a phwysig perthynol i deyrnas Dduw ac ail-ddyfodiad y Messiah.

Credwn yn llythyrenol gasgliad Israel, ac adferiad y deg llwyth; fod Seion i gael ei sefydlu ar y cyfandir gorllewinol, fod Crist i deyrnasu yn bersonol ar y ddaear am fil o flynyddoedd, a bod y ddaear i gael ei hadnewyddu a derbyn ei gogoniant paradwysaidd.

Credwn yn adgyfodiad llythyrenol y corff, ac y cyfyd y meirw yn Nghrist yn gyntaf, ac na fydd y lleill o'r meirw fyw drachefn hyd nes y darfyddo y mil blynyddoedd.

Honwn y fraint o addoli y Duw Hollalluog yn ol cyfarwyddiadau ein cydwybodau heb ein haflonyddu, a chaniatawn i bawb ereill yr un fraint, addolent lle ac fel y mynont.

Credwn mewn bod yn ddarostyngedig i freninoedd, breninesau, llywyddion, llywodraethwyr, ac ustusiaid, ac mewn ufyddhau, parchu a dal i fyny y gyfraith.

Credwn mewn bod yn onest, geirwir, diwair, cymmedrol, haelionus, rhinweddol, ac uniawn, ac mewn gwneuthur daioni i bawb; yn wir, gallwn ddweyd ein bod yn dilyn cynghor Paul, yr ydym "yn credu pob dim," yr ydym "yn gobeithio pob dim," yr ydym wedi dyoddef llawer iawn o bethau, ac yn gobeithio bod yn abl i "ddyoddef pob dim." Ymgeisiwn ar ol pob peth rhinweddol, teilwng, dymunol, a chymmeradwy, gan edrych yn mlaen ar "daledigaeth y gwobrwy."

[*Allan o* Udgorn Seion.]

Argraffwyd gan J. Davis, Georgetown, Merthyr-Tydfil.